# papur priordy



**Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn,**
**ef yw awdur popeth byw,**
**a chyhoedda miwsig adar**
**yn y coed mai da yw Duw.**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 376**
**PAPUR EBRILL 2024**

## GAIR GAN EIN GWEINIDOG

### Pennod newydd


*'Felly dyma Duw yn rhoi cyfle arall, a 'heddiw' ydy'r cyfle hwnnw' (Hebreaid 7:4 Beibl.net)*



***ERBYN*** i chi ddarllen y geiriau hyn, fe fydd pennod newydd wedi ei hagor yn hanes Capeli Cymraeg Caerfyrddin a Bancyfelin. Tra bo nifer yn gweld 1 Ebrill fel cyfle i dynnu coes, nid jôc yw'r hyn a gychwynnwyd yn ein plith ar 1 Ebrill eleni. Dyma ddyddiad cychwyn ein gofalaeth newydd – 'Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin' – sy'n cynnwys eglwysi Bancyfelin, Cana, Elim Ffynnon-ddrain, Heol Awst a'r Priordy. Cynhelir oedfa arbennig nos Wener 12 Ebrill pan gaf fy sefydlu yn weinidog ar Elim a Heol Awst. Bydd yr ofalaeth newydd hefyd yn cael ei ffurfio'n swyddogol yn ystod yr oedfa.

Dyma'n wir yw pennod newydd sbon a phennod hanesyddol yn ogystal. Ffrwyth dwy flynedd a mwy o drafod, a cheisio arweiniad Duw wrth wynebu'r ffordd ymlaen. Down ynghyd yn ein cryfder, ac nid yn ein gwendid, mewn gobaith ac nid mewn anobaith, ac mewn ffydd ac nid mewn amheuaeth. Ni all unrhyw ddrwg ddod o'r uniad hwn, dim ond daioni.

Mae'r bennod newydd hon yn rhoi cyfle i ni ailedrych ar weinidogaeth yr eglwysi, a darganfod doniau newydd yn ein plith – doniau cyhoeddus, ymarferol a bugeiliol. Mae'r pwyslais yn awr ar 'weinidogaeth' ac nid ar 'weinidog'. Cymaint yw maint yr ofalaeth newydd o ran nifer aelodau (500 i gyd) fel y bydd y weinidogaeth yn cael ei rhannu'n fwy eang rhyngom yn fwy nag erioed.



Wrth i'r bennod newydd hon agor o'n blaenau, gweddïwn y bydd Duw yn rasol wrthym ac y bydd yn rhoi cyfleon newydd i ni rannu ein tystiolaeth am Iesu a'i ogoniant yn ein plith.

Dywedodd awdur y Llythyr at yr Hebreaid,

*'Felly dyma Duw yn rhoi cyfle arall, a 'heddiw' ydy'r cyfle hwnnw' (Hebreaid 7:4 Beibl.net)*

***AC*** fe ddywedwn ni 'Amen!'

## Gweddïwn



**Arglwydd, pâr i'r bennod newydd hon**
**Fod yn gychwyn newydd i bawb ohonom.**
**Deued yr Ysbryd Glân i'n hadnewyddu yn dy waith**
**a'n galluogi i fod yn well tystion**
**i'n Harglwydd Iesu Grist yn y byd.**

**Amen**

## DARLLENIADUR

| Mis Ebrill | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1<br>*Y Pasg Bach* | Ioan 20: 19-31 |
| Wythnos 2 | Luc 24: 36b-48 |
| Wythnos 3 | Ioan 10: 11-18 |
| Wythnos 4 | Ioan 15: 1-8 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**MARGARET LLOYD EVANS**
**a**
**GWYNN AC ANN BOWYER**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer

# Cwrdd Sefydlu'r

## Parchg Beti-Wyn James BD, MTh

Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin

yn Weinidog i Iesu Grist

yn

Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain a Heol Awst

**Nos Wener, 12 Ebrill 2024**
**am 6.00 o'r gloch**
**yng Nghapel Heol Awst**

**SEFYDLIR GOFALAETH NEWYDD**
**TRWY'R UNIAD HWN**
**'GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN'**

**CROESO CYNNES I BAWB**

Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

---

**DALIER SYLW**
**SUL Y MAER**
**Gwasanaeth Dinesig – Y Priordy**
**Bore Sul – 9 Mehefin 2024 – 10 y bore**

**CWRDD CHWARTER**
**MORIAH BLAEN-WAUN**
**SA34 OJE)**



Y Gynhadledd am 10.30 a Chyfarfod y Prynhawn am 1.30

Siaradwr gwadd Cyfarfod y Prynhawn



Ffion Fielding ar y testun *Hawlio Heddwch*

*(Mae Ffion yn Rheolwr Prosiect 'Hawlio Heddwch' Academi Heddwch Cymru ac yn un o blant y Priordy sy'n fwy adnabyddus i ni efallai fel Ffion Kynaston)*

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb




**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**PANED A CHÂN**



**Ar gyfer trigolion Plas-y-dderwen a Dol-y-Felin**
**yn Festri Cana – Prynhawn Mercher 1 Mal 2024 am 2.30**




**Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr Her ac am y cyfraniadau i'r Banc Bwyd**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn, Heledd ap Gwynfor, Angharad Wyn, Betsan James a Siwan Jones am y lluniau'r mis hwn.

## Y mae Duw yn neffro'r Gwanwyn




***PENNILL*** cyntaf emyn gan William John Gruffydd neu Elerydd (ei enw yn yr Orsedd) sydd ar y tudalen blaen, sef Rhif 136 yn Caneuon Ffydd.

Mae'r emyn ar ei hyd yn 'darlunio doniau Duw'r Creawdwr ym mhob un o'r pedwar tymor.' Mae'n briodol y mis hwn felly ein bod yn canolbwyntio ar bennill y Gwanwyn.

Ysgrifennodd W J Gruffydd yr emyn yn ystod y 19au cynnar a hynny ar gais Joan Osborne Thomas, cyfansoddwraig y dôn Preseli (Caneuon Ffydd 110) a briodir â'r emyn hwn. Canwyd yr emyn am y tro cyntaf gan gôr Ysgol y Preseli.

Ganed yr awdur ym 1915 yn Ffair-rhos, Ceredigion. Cyfeiriad sydd yn ei enw barddol Elerydd at Afon Leri (neu Eleri) gerllaw ei gartref yn Nhal-y-bont ble roedd yn weinidog adeg ei goroni am y bryddest *Ffenestri* yn Esteddfod Pwllheli ym 1955. Enillodd hefyd y goron yng Nghaerdydd ym 1960 am bryddest ar y testun *Unigedd.*




Bu'n Archdderwydd o 1984 hyd 1987.

Mae W J Gruffydd yn adnabyddus am ei straeon am helyntion y cymeriadau annwyl 'Tomos a Marged' a fu'n diddanu darllenwyr y *Tivyside Advertiser* am flynyddoedd yn ystod ei gyfnod yn weinidog yn Y Glog. Casglwyd eu hanesion mewn sawl cyfrol dros y blynyddoedd.

Bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr mewn sawl man yng Ngorllewin Cymru. Cyhoeddodd nifer o lyfrau, ar ffurf barddoniaeth, hunangofiant a hanes eglwysi, yn cynnwys *Tua Soar. Capel Soar y Mynydd*. Cadarnhaodd straeon Tomos a Marged ei le ymhlith ysgrifenwyr prin straeon digri Cymraeg.

Emyn 136 yw'r unig un o'i eiddo yn Caneuon Ffydd a dyfynnwn yr emyn cyfan wrth gloi:



| | |
|---|---|
| Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn,<br>ef yw awdur popeth byw,<br>a chyhoedda miwsig adar<br>yn y coed mai da yw Duw. | Dwed yr haf â'i fwyn diriondeb<br>am ogoniant mawr yr Iôr,<br>mae hyfrydwch yn y mynydd,<br>mae cyfaredd yn y môr. |
| | |
| Gwelir Duw yn lliwiau'r hydref<br>pan aeddfedo'r cnwd a'r grawn,<br>mae ei roddion yn y berllan,<br>mae ei wyrth mewn sgubor lawn. | Y mae Duw yng ngrym y gaeaf<br>pan fo'r storm dros bant a bryn,<br>ac fe welir ei ryfeddod<br>pan fo'r llawr dan eira gwyn. |
| | |
| Mae ei Ysbryd yn ymsymud<br>eto dros y cread mawr,<br>bendigedig fyddo'r Arglwydd,<br>Halelwia nef a llawr! | |



# OEDFA DEULU GYDENWADOL I DDATHLU GŴYL DEWI YN HEOL AWST











## *Yn y bore*

**Mwynwen Jones**

***MAE'N*** arferiad blynyddol i nifer o rieni Cymru fynd ati ddiwedd Chwefror i chwilota am y wisg Gymreig gan obeithio'n flynyddol ei bod hi'n dal i ffitio eto am un flwyddyn fach arall...gan obeithio hefyd y daw'r het neu'r sgarff i'r golwg o waelod y cwpwrdd dillad jyst mewn pryd.  Roedd hi'n deimlad cymysg iawn yn ein tŷ ni eleni wrth weld Elliw - yr olaf o'r nyth, yn ei gwisg draddodiadol, mwy na thebyg am y tro olaf.

Cychwynnwyd ar y dathliadau eleni yn nhref Caerfyrddin gydag Oedfa



Gŵyl Dewi yng nghwmni plant Ysgolion Sul Cymraeg y dref.  Roedd hi'n braf gweld cymaint wedi dod ynghyd i Gapel Heol Awst a'r llawr yn llawn o blant a'u teuluoedd o'r capeli a'r eglwysi amrywiol.

Yn dilyn gweddi agoriadol estynnwyd croeso twymgalon i'r gynulleidfa ac i'r ymwelydd arbennig Martyn Geraint o Bontypridd.

Plant o gapel Elim gyhoeddodd yr emyn cyntaf sef rhif 833 – 'Tydi, O Dduw, a beraist'.  Dyma emyn pwrpasol iawn sy'n gweld Dewi Sant fel colomen wedi'i anfon atom i gario neges Duw.  Mae'n gofyn am ras i wneud y pethau bychain ac yn diweddu gyda'r geiriau oesol:

bydd eto'n Dduw ein plant  
a chadw'n Cymru ninnau  
yn Gymru Dewi Sant



Yna camodd Trystan Hayes, Ysgol Sul y Priordy, i'r blaen yn portreadu Dewi Sant gan gyflwyno ychydig o'i gefndir hanesyddol yn llawn hwyl.  Credai Dewi ei bod yn bwysig sôn am Iesu y tu hwnt i adeiladau gan nodi enghreifftiau fel roedd wedi llwyddo i wneud hynny - heb sat nav

cofiwch! .Cyfeiriwyd iddo sefydlu cymdeithas grefyddol Glyn Rhosyn sy'n cael ei adnabod fel Tyddewi heddiw.

Arweiniodd hyn ni'n dwt at ddarlleniad clir o'r Bregeth ar y Mynydd gan ddau gynrychiolydd o Eglwys Crist yn cyfeirio at yr holl bobl sy'n cael eu bendithio'n fawr gan Dduw.

Yna daeth dau frawd o Gapel y Priordy sef Gwilym ac Osian ymlaen i nodi pwysigrwydd addoli a dysgu am Iesu Grist ers dyddiau Dewi ac fel mae olion seintiau Cymru ar gynifer o enwau lleoedd gan restru rhai o'r llannau... o Langrannog i Lanpumsaint, heb anghofio: Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyndrobwllllantysiliogogogoch!

Yna, cafwyd deuawd hynod o swynol gan ddwy dalentog o'r Priordy sef Beca a Miriam – y ddwy yn eu cit pêl-droed coch oedd yn gweddu i'r dim. Gobeithio iddynt gael cystal hwyl yn ddiweddarach ar y cae pêl-droed!

Dwy o ferched ysgol Sul Elim oedd yn gyfrifol am y weddi. Yna, daeth y plant yn eu gwisgoedd traddodiadol ymlaen i gydganu cân yn sôn am neges Dewi Sant o wneud y pethau bychain. Criw o blant o Gapel y Babell gyhoeddodd yr Emyn 401 'Mae 'nghalon mor llon'.



Yna, cafwyd sgwrs hwyliog dros ben a sawl cân gan Martyn Geraint. Roedd rhaid i bawb siglo llaw a chanu'r gân 'Ffrindiau'. Nododd mai dau o'r pethau sy'n ein gwneud ni fel cynulleidfa'n ffrindiau yw ein bod yn Gristnogion ac yn Gymry Cymraeg. Rhoddwyd sialens wedyn i bawb o'r lleiaf i'r hynaf yn y gynulleidfa ganu cân gyda symudiadau Makaton, cân yn sôn bod siarad Cymraeg yn agor drws i fyd llawn hud. Holodd Martyn a oedd y plant yn gwybod ble roedd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Pontypridd oedd yr ateb, wrth gwrs, sef cartref Martyn. Cafwyd ymweliad hefyd gan byped, sef Elvis Preseli o Sir Benfro a oedd yn chwilio am gystadleuaeth roc-a-rôl yn yr Eisteddfod eleni cyn canu'r gân 'Dw i'n canu roc a rol yn y bore'. Dywedodd Martyn wedyn taw pwrpas y diwrnod oedd cofio'r Cymro pwysicaf sef Dewi Sant. Rhannodd wers foesol am rywun enwog a chyfoethog oedd yn byw mewn tŷ crand, llawn trysorau drud ac wedi colli'i deulu'n gynnar. Cafodd ocsiwn i gael gwared ar rai o'r trysorau. Un o'r eitemau yn yr ocsiwn oedd llun ei fab. Er i eitemau eraill fynd am bris drud, dim ond y gwas gododd ei law am y llun hwn. Fe'i cafodd yn

rhesymol, ond roedd cyfarwyddyd wedi'i roi. Roedd pwy bynnag a fyddai'n derbyn mab y person enwog i gael y cyfan!

Beti-Wyn oedd yn gyfrifol am gloi'r gwasanaeth gan ddiolch yn arbennig i Martyn Geraint, heb anghofio band y Priordy oedd wedi ychwanegu at y naws drwy'r gwasanaeth.

***CYHOEDDODD*** yr emyn olaf 832 'Dysg inni garu Cymru'.

## *Yn yr hwyr*

***ROEDD*** awyrgylch arbennig o swynol a phriodol yn Eglwys San Pedr, Caerfyrddin, gyda'r hwyr pan ddaeth cynulleidfa ynghyd i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant Dewi.



Roedd hefyd yn oedfa gynhwysol iawn gyda phawb yn y gynulleidfa'n chwarae rhan ynddi o'r dechrau i'r diwedd.



Y Parchedig Ddr Matthew Anthony Hill, a benodwyd yn ddiweddar yn Archddiacon Caerfyrddin o fewn Esgobaeth Tyddewi, oedd yng ngofal y gwasanaeth. Cymerwyd rhan yn ogystal gan gynrychiolwyr capeli Anghydffurfiol ein tref, sef y Parchedigion Beti-Wyn James ac Emyr Williams, Joan Thomas, Emyr James a Brian Walters.

Diolch hefyd i'r Côr, dan arweiniad Glynis Morris, a Meirion Wyn Jones wrth yr organ am ychwanegu at y naws hyfryd.

Y pregethwr gwadd oedd Yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi, un o sefydlwyr Tir Dewi fel llinell gymorth a gwasanaeth cefnogi i ffermwyr a'u teuluoedd yn wyneb anghenion a phroblemau'r gymuned wledig. Ymdriniodd â nodweddion bywyd Dewi a'i ymroddiad llwyr i Iesu. Fe'n hanogodd ninnau oll i ddilyn ei esiampl ac i geisio rhoi ychydig o funudau bob dydd i'r Arglwydd.



***FE'N*** gwahoddwyd oll i fynd at yr allor i dderbyn y bara a'r gwin yn ystod y Cymun Sanctaidd cyn ymadael a ninnau'n falch o'r cyfle i anrhydeddu Duw a diolch iddo am Ddewi ar derfyn gwasanaeth a diwrnod hynod o gyfoethog.

# YR YSGOL SUL YNG NGHARTREF ERW HIR












**Angharad Wyn …**



## YR YSGOL SUL YN ERW HIR

Mae criw’r Ysgol Sul yn ymweld â chartref henoed Erw Hir yn gyson drwy’r flwyddyn. Ar fore Sul 17 Mawrth cynhaliwyd gwasanaeth arall yn y cartref dan ofal y plant a’r bobl ifanc.

Croesawodd Elliw bawb i’r gwasanaeth a dechreuom drwy gydganu’r emyn Calon Lân. Roedd y trigolion wrth eu bodd yn cydganu gyda’r plant a nifer ohonynt yn cofio bob gair.

Aeth Nel ymlaen i egluro ein bod yno i ddathlu doniau arbennig. Eglurodd bod Duw wedi rhoi doniau gwahanol i bob un ohonom a’i bod yn bwysig ein bod yn dathlu hyn.

A sôn am ddoniau, roedd rhai o’r plant yn awyddus i berfformio yn unigol ac arddangos eu doniau nhw. Canodd Martha Nel unawd hyfryd ac yna aeth ei chwaer, Greta Fflur, ymlaen i lefaru i bawb. Yn dilyn hynny, cawsom unawd gerdd dant gan Greta Marged.

Clywsom am ddoniau pawb arall gan gynnwys Hedd oedd yn “dda am chwarae pêl droed” a Miriam, oedd yn “dda am goginio cacen.”

Roedd gweddi Cadi yn addas iawn wrth iddi ddiolch i Dduw am ddoniau arbennig a gofyn Iddo’n helpu i‘w defnyddio er mwyn eraill bob amser. Cafwyd dwy gân gan y plant i gyd a phawb yn mwynhau.




I gloi’r gwasanaeth, cyhoeddodd Gwenan emyn cynulleidfaol arall… roedd y trigolion wrth eu bodd yn canu “Mi glywaf dyner lais” ar dop eu lleisiau!

***ROEDD*** hi’n braf cael sgwrs gydag ambell un ar ddiwedd y gwasanaeth a’r plant yn amlwg wedi rhoi gwên ar sawl wyneb y bore hwnnw.

**Lleuwen**

**Emynau Coll y Werin**

**22 Ebrill 2024 – 7 o'r gloch**

**Capel y Priordy**





## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty'r Llwyn Iorwg**

**17 Ebrill 2024**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

## CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

**Nos Fercher 5 Mehefin 2024 am 7**
**yn y Festri**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

***Trefnir cyswllt zoom i'r sawl sy'n methu â bod yn bresennol***

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023

**Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi ymddangos. Diolch i bawb sydd wedi paratoi ar ei gyfer, yn enwedig Adrian Evans, Trysorydd a Huw Michael, Ysgrifennydd Ariannol a'n cyswllt â'r Wasg**

**Theatr Genedlaethol Cymru**
***yn cyflwyno***
**PARTI PRIODAS**
***gan Gruffudd Owen***
**30 Ebrill 2024**
**Yr Egin, Caerfyrddin**
**Tocynnau: £14 (£10 myfyrwyr) Canllaw Oed: 16+**



***Dyma'ch gwahoddiad i barti priodas Dafydd a Samantha….***

***Hefyd – 29 Ebrill 2024 -Theatr y Ffwrnes, Llanelli – 7.30***
***(0345 2263510)***

# CAWL A CHWIS YNG NGHLWB Y CWINS











**CAWL A CHWIS**




**Y Cwins, Caerfyrddin**
**Dydd Mawrth 6 Mawrth 2024**

Pleser oedd croesawu aelodau Cana a Bancyfelin a Heol Awst a chyfeillion eraill atom i gyfarfod Cymdeithas y Priordy i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant yng Nghlwb y Cwins.

Roedd y cawl a'r pwdin, y pice ar y maen a'r coffi / te o safon uchel, fel y byddid yn ei ddisgwyl, ac yn gosod pawb mewn hwyliau da ar gyfer y cwis!



Y cwisfeistr oedd Tudur Dylan Jones a'n heriodd â chwestiynau hwyliog a oedd yn gofyn i ni ddyfalu gryn dipyn am ein hardal leol, fel y pellter o un lle i'r llall a faint o gapiau dros Gymru a'r Llewod sydd gan un o'n harwyr, Delme Thomas. Tîm Heol Awst a orfu mewn cystadleuaeth glos a llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!



Roedd Tudur Dylan wedi'n rhybuddio ar y dechrau rhag cafflo a defnyddio'n ffonau clyfar ac ati ac i gyfrif ein marciau'n deg! Fentrodd yr un ohonon ni roi ei droed ynddi ychwaith, yn enwedig ar ôl ei weld yn perfformio tric â chardiau gyda Sulwyn Thomas, gan ddangos ei fod yn llygaid i gyd ac yn gallu synhwyro symudiad pawb! I gadarnhau hynny, gwnaeth dric tebyg tua'r diwedd, gan syfrdanu pawb gyda Beti-Wyn yn gweithredu fel Debbie McGee iddo'r tro hwn!

Roedd un digwyddiad yn goron ar weithgareddau'r prynhawn. Yn 1923, cafodd deiseb heddwch ei llofnodi gan bron i 400,000 o fenywod yng Nghymru, yn galw ar fenywod yr Unol Daleithiau i roi pwysau ar eu llywodraeth i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd, rhagflaenydd y Cenhedloedd Unedig. Roedd erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn fyw yn y cof, ac roedd hon yn apêl o'r galon er mwyn rhoi terfyn ar dywallt gwaed. Casglwyd enwau o ddrws i ddrws ymhob tywydd a phob cwr o'r wlad, a chafodd y ddeiseb ei gosod mewn cist fawr dderw i'w

Chludo ar draws Môr Iwerydd i'r Unol Daleithiau. Yno, cafodd ei chyflwyno i fenywod y wlad a'r Arlywydd ar y pryd, Calvin Coolidge. Mae'r ddeiseb a'r gist dderw yn ôl yng Nghymru bellach.  Mae'r gwaith o drawsgrifio a digido'r enwau sydd ar y ddeiseb yn mynd rhagddo gan roi cyfle i bob un ohonon ni chwilio am ein perthnasau a'n cysylltiadau, boed yn fam-gu, yn nain, yn hen-fodryb ac ati.



Cyflawnodd Tudur Dylan waith ditectif cynhyrfus drwy'n gwahodd ar ddechrau'r prynhawn i gynnig enwau aelodau o'n teulu yn yr oedran priodol, ynghyd â'u cyfeiriad, a allai fod wedi llofnodi'r ddeiseb. Bu yntau'n brysur wedyn yn ymchwilio ar ei liniadur tra oedden ni'n mwynhau'r wledd ac yn wir i chi daeth ar draws perthnasau agos i bump o'n haelodau a oedd wedi llofnodi'r ddeiseb, sef Eirlys Davies, Eirlys Jones, Rhian Jones, Nia Lewis a Glenys Thomas.  Does dim angen dweud fod y foment yn un deimladwy iawn iddyn nhw i gyd. Maen nhw bellach yn gallu derbyn copi o lofnod eu perthnasau agos sydd ar y ddeiseb. Am drysor!

Go brin y gellid fod wedi diweddu prynhawn mor hyfryd ar nodyn uwch na hyn. Diolch i Beti-Wyn am y trefniadau ac am lywyddu'r prynhawn gan ddechrau â gair o weddi, i Glwb y Cwins am y lluniaeth, i Catrin Heledd a Betsan James am helpu gyda'r ochr ariannol ac yn arbennig i un arall ohonon ni, Tudur Dylan Jones, am ei gyfraniad meistrolgar. A diolch i draw perffaith Meinir Lloyd, roedd cryn hwyl ar ganu *Mae Hen Wlad fy Nhadau* cyn i ni ymadael.


cymorth cristnogol

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
**Dydd Sadwrn 20 Ebrill 2024**
**10.00-12.00**
**Capel Wesle**
**Stondiau a Raffl. Bydd y Priordy'n gofalu am y Stondin Gacennau**

**Siwan Jones…**



## YMWELIAD ARBENNIG

Ar yr 20fed o Chwefror, cefais y cyfle i fynd ar daith diwrnod i Wlad Pwyl fel rhan o brosiect ‘Lessons from Auschwitz”. Aethom i weld yr hen dref Iddewig Oświęcim ac amgueddfa Auschwitz-Birkenau cyn gorffen gyda seremoni i gofio am y 6 miliwn a gafodd eu lladd o ganlyniad i wrth-semitiaeth.



Aethom yn gyntaf i dref Oświęcim. Cymuned Iddewig oedd y mwyafrif o drigolion y dref ac roeddent yn rhan o fywyd cymunedol, yn ymweld â marchnadoedd ac yn mwynhau diwylliant ac adloniant fel pobl arferol. Cawsom y cyfle i weld lle safai “The Great Synagogue” ac er nad yw’n bodoli mwyach, gwelsom gofeb oedd wedi’i gosod yno, yn adrodd hanes bywyd Iddewig cyn y drychineb wrth-semitaidd. Dyma adeilad lle bu’r gymuned Iddewig yn teimlo ymdeimlad o gysylltedd, ymdeimlad o berthyn, ymdeimlad o werth ac ymdeimlad o falchder, rhywbeth a gafodd ei gymryd oddi wrthynt.




Symudon ni ymlaen wedyn i ymweld ag Amgueddfa Auschwitz-Birkenau, profiad dirdynnol ac emosiynol. Wrth gerdded trwy gatiau’r gwersyll, sylwom ar y geiriau “Arbeit Macht Frei”. Mae'r geiriau yma’n adnabyddus am ymddangos ar fynedfa Auschwitz a gwersylloedd crynhoi eraill y Natsïaid. Mae’n golygu "Drwy waith cewch eich rhyddhau" ac fe wnaeth y carcharorion wrthdroi'r llythyren "B" yn fwriadol fel arwydd cuddliw o anufudd-dod.

Cerddom o amgylch sawl bloc a oedd yn rhoi darlun i ni o sut oedd

bywyd yr Iddewon yn y gwersylloedd crynhoi. Yr hyn wnaeth fy syfrdanu, gan wneud yr holl beth yn realiti, oedd y llyfr enwau ym Mloc 27. Llyfr trwchus oedd yn gofnod o holl ddioddefwyr yr holocost yn cofnodi eu henwau, dyddiadau geni, eu trefi a'r llefydd buont farw. Cafodd tua 6 miliwn o Iddewon eu lladd ond dim ond 4.8 miliwn ohonynt sydd wedi cael eu cofnodi. Mae tudalennau olaf y llyfr yn wag, yn symbol o'r enwau sydd eto i'w hadalw, yn dangos gwir dristwch y sefyllfa.



Roedd Bloc 4 yn adlewyrchu colled. Gwelsom filiynau o eitemau o ddillad a oedd unwaith yn perthyn i ddynion, merched a phlant, ynghyd â 6,350kg o wallt dynol. Roedd amgueddfa Auschwitz yn dal mwy na 100,000 o barau o esgidiau, 12,000 o offer cegin, 3,800 o gêsys a 350 o ddillad gwersyll streipïog oedd wir yn ddarlun torcalonnus.



Cymerais y cyfle i adlewyrchu'r hyn yr oeddwn wedi'i weld yn ystod y diwrnod wrth gynnau cannwyll a gwrando ar wasanaeth oedd yn cynnwys cyfres o weddïau a cherddi mewn seremoni i gofio am y dioddefwyr.  Yn bendant, byddaf yn cofio'r hyn rwyf wedi'i weld am flynyddoedd i ddod a chadw'r rheini bu farw mewn cof.

***Diolch yn fawr iawn i Siwan am yr erthygl hon yn sôn am ei hymweliad â Gwlad Pwyl. Mae Siwan hefyd yn aelod o Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ers tair blynedd. Bu'r Côr yn canu gyda Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC mewn cyngerdd Gŵyl Dewi yn Neuadd Brangwyn yn ddiweddar yn rhan o ddathliad pen-blwydd Syr Karl Jenkins yn 80 oed.***

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***



# CWIS Y GWYRTHIAU

**Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!**
**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

## Dyn yn dioddef o'r gwahanglwyf

## Luc 5: 12-16
## (Mathew 8:1-4; Marc 1:40-45)


Yn un o'r trefi dyma Iesu'n cyfarfod dyn oedd â gwahanglwyf dros ei ---- i gyd. Pan welodd hwnnw Iesu, syrthiodd ar ei wyneb ar lawr a chrefu am gael ei -----, "Arglwydd, gelli di fy ngwneud i'n iach os wyt ti eisiau." Dyma Iesu yn estyn ei --- a chyffwrdd y dyn. "Dyna dw i eisiau," meddai, "bydd lân!" A'r eiliad honno dyma'r ----------yn diflannu. Ar ôl ei rybuddio i ------ dweud wrth neb beth oedd wedi digwydd, dyma Iesu'n dweud wrtho, "Dos i ----- dy hun i'r offeiriad. Ac fel y dwedodd Moses, dos ag ----- gyda ti, yn dystiolaeth i'r bobl dy fod ti wedi cael dy iacháu." Ond roedd y newyddion amdano yn mynd ar --- fwy a mwy. Roedd tyrfaoedd mawr o bobl yn dod i ------ arno ac i gael eu hiacháu. Ond byddai Iesu'n aml yn mynd o'r golwg i leoedd unig yn yr anialwch i -----.

***Atebion - Tudalen 32***

## DIGON O HWYL YN YR YSGOL SUL













# Ifanc@Priordy

**Gwyliau**


Helo bawb. Gobeithio eich bod yn mwynhau eich gwyliau Pasg! Hoi fach o'r Ysgol Sul tan ar ôl y Pasg.

**Erw Hir**

Diolch i bawb a aeth i Gartref Erw Hir. Mae'r trigolion yn dwlu eich gweld chi gyd. Da iawn chi!




**Prosiect MIC**



Cafodd 13 ohonoch y fraint o gymryd rhan ym mhrosiect Pasg MIC (Menter Ieuenctid Gristnogol Sir Gâr) a chafwyd awr fywiog iawn yn y festri gyda ffotograffydd proffesiynol yn tynnu eich llun yn portreadu'r Swper Olaf. Diolch i chi gyd. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i weld y llun dros y cyfryngau cymdeithasol.


**Yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd. Da iawn bawb!



Fedrwch chi helpu'r gwragedd ar fore'r trydydd dydd i ddod o hyd i'r Iesu byw?







**Calendr**

| | | |
|---|---|---|
| Sul 7 Ebrill | Ysgol Sul<br>Hwyl yng nghwmni Natalie | PIP i aros yn yr oedfa |
| Sul 14 Ebrill | Oedfa Deulu<br>gyda band a'r band taro! | Oedfa Deulu |
| Sul 21 Ebrill | Ysgol Sul | PIP |
| Sul 28 Ebrill | Ysgol Sul | PIP i aros yn yr oedfa |

# Chwilotair Llythyren 'O'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | A | B | O | I | O | F | F | N | I | Y | I | N | D |
| O | D | R | E | O | F | E | I | M | N | R | R | R | D |
| L | L | F | O | G | M | F | F | A | E | A | E | O | A |
| R | I | F | O | O | O | O | I | L | I | U | F | N | Y |
| B | E | O | M | I | R | M | O | O | W | M | R | E | E |
| O | F | S | E | E | O | L | D | B | F | B | D | S | Y |
| F | O | M | G | Y | L | G | N | E | E | Y | O | I | O |
| O | O | F | A | M | O | O | M | D | G | O | O | M | N |
| O | M | E | O | Y | E | B | O | A | E | B | W | U | O |
| R | F | E | A | O | A | I | M | B | A | E | O | S | Y |
| L | A | F | O | I | M | L | A | D | A | O | E | D | O |
| D | O | R | R | F | O | L | E | W | Y | D | D | S | B |
| O | W | E | S | A | A | I | A | M | O | O | L | U | F |
| Y | B | F | O | M | A | F | A | B | O | G | O | B | B |

OMRI
OFFRA
OBADEIA
OMEGA
ONESIMUS
OLEWYDD
OER
OFFNI
OBED
OBIL

*Hwyl fawr tan y tro nesaf!*
*Beti -Wyn*

## TÎM Y PRIORDY YN NHALWRN Y DAFFODIL



## LIMRIG

**Does uman yn debyg i gartre(f)**

**Maes Carafanau'r 'Steddfod**

'Rôl wythnos ar faes carafane
a chiwio pob dydd i'r toilede,
pob cawod fel llyn, pob adlen mewn bin,
Does unman yn debyg i gartre!



**Beti-Wyn James**

## CYWYDD

**Peilonau**

Lle bu'r iaith a'i llwybrau hen
ein herwau sydd tan weiren,
fesul darn daw haearn hy'
i'n meysydd i'w tresmasu.
Nid oes yno ond sinach
a dur oer uwch derw iach.
Trown yr og trwy'r gymdogaeth,
yn lle coed rhown gawell caeth.
Tan siliwet o fetal
Mwyach â'r geinach i'w gwâl;
tros y rhos mae'r nos yn hel
yn nhwf y trydydd rhyfel.



**Aled Evans**

## Mewn cwrwgl

Roedd pethe’n mynd mor hwylus,
wy’n gwryglwr tra gofalus,
fe ddysgais drin fy rhwyf yn rhwydd,
neud ffigwr wyth yn daclus.
Ond bues i’n esgeulus
aeth fy nghwrwg ’n afreolus,
a suddo wnes i bwll go ddwfn,
ma llif yn beth cwryglus.



**Elinor Wyn Reynolds**

## ENGLYN

**Cennin Pedr**
**(o’u gweld yn debyg i’r sticeri Coal not Dole)**




Tan lwyn maent yno ‘leni a’u hutgyrn
yn atgof o’n cyni,
yn daer o hyd, dau neu dri,
yn cadw’r rhes picedi.

**Aled Evans**

**Cennin Pedr**

Mi welaf yn eu melyn liwiau’r haul
a’i wres yn eu gwreiddyn;
yn rhyfeddod eu blodyn
gwelaf haf drwy’r erwau hyn.

**Aled Evans**

**CÂN YSGAFN**

**Cystadlu**

Dou gowboi sy’n cystadlu, un ‘Sleepy Jo,’ un Cranc,
Yn whilo am gael cyfle i redeg Gwlad Yr Ianc. Ma Trump yn foi dantsheris, mae’n meddwl bo fe’n sant,
Sdim ots am weud celwydde fel ci yn trotian bant.
Sdim ots bo fe yn tsheto a mynd o fla’n ‘i well,
Sdim ots bo fe’n cytuno da Pwtin mewn gwlad bell.
Sdim ots am newid hinsawdd a’r byd ma’n twymo lan,
Ie, cario dryll sy’n bwysig bob amser ym mhob man.
Ond jawch, ma ots bod cymint yn meddwl bo fe’n cŵl,
A ninne’i gyd yn gwbod ‘i fod e’n blwmin ffŵl.
A wedyn, beth am Beiden? Hen foi bach fel mashin
A wastod yn ca’l trafferth i gadw ar ddihun. Mae’n siarad fel dyn meddw a stablad gyda’r iaith,
Mae’n gwisgo sbectol dywyll bob amser ar ei daith
Mae’n llusgo fel malwoden wrth fynd obiti’r lle,
A helpu lladd plant Gaza yw ei gyfraniad e!
A so fe’n gallu cofio, cymysgu mwy na’i siâr,
Ond whare teg, bob amser, mae’n gwenu fel hen iâr.
Mae wedi mynd yn ffradach, ‘na’r dewis erbyn hyn –
Sef crafu gwaelod casgen i hawlio y Tŷ Gwyn.



**Peter Hughes Griffiths**

Llongyfarchiadau mawr i Dîm y Priordy am ragori yn Nhalwrn y Daffodil a gynhaliwyd yn Yr Egin ar Nos Wener 15 Mawrth 2024

Cymerodd bedwar tîm ran – Cwm Gwendraeth, Y Derwyddon, Myrddin a’r Priordy ac fe’u gosodwyd yn gyfartal gan y ddau Feuryn - Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones.

Casglwyd £300 i'r Banc Bwyd yn Eglwys Crist ar y noson.

## OEDFA DEULU YNG NGHANOLFAN HALLIWELL

## PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT














**Elinor Wyn Reynolds…**



## Gwasanaeth Dathlu Sul y Fam

***AR*** fore Sul y Mamau, mi gawson ni gyfle i gwrdd mewn oedfa i ddathlu Sul y Fam yn Ystafell Cothi, Canolfan Halliwell ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Mi oedd y gwasanaeth yn rhan o'n rhaglen flasu ni er mwyn cael profi sut beth yw hi i fod yn rhan o oedfa sy'n cael ei chynnal y tu allan i adeilad capel y Priordy. Yr ydym wrthi'n ystyried ein dyfodol ar hyn o bryd o ran adeilad y Priordy a dyfodol yr eglwys, sef y bobl sy'n aelodau ac sy'n dod i addoli bob Sul. Y mae'r adeilad yn gostus i'w gynnal a'i gadw at safon dderbyniol, hyn sydd wedi cychwyn ar broses o drafod a gwneud i ni godi cwestiwn am ein sefyllfa ni i ddechrau, hynny yw, a ydyn ni am barhau i gario baich cynyddol drwm adeilad sydd, erbyn heddiw, yn anaddas mewn rhai ffyrdd, i'r hyn sydd ei angen ar gyfer addoli yn yr unfed ganrif ar hugain? Y mae unrhyw newid yn dod â'i bryderon gydag ef wrth gwrs, ond o edrych arno o gyfeiriad arall, gallai ddod â chyfleon newydd i ni, rhai nad ydym ni wedi meddwl amdanyn nhw hyd yma.



Felly, dyma ni yn cyfarfod i gael oedfa gyda'n gilydd yn griw hapus a diddan. Fe'n croesawyd wrth y drws gan y teulu Morgans a ddangosodd y ffordd i bawb lan i Ystafell Cothi. Yno roedd yr ystafell wedi'i gosod mas i ni a chadeiriau cysurus i bawb, cymerodd pawb eu seddau ac roedd sgwrsio hamddenol ymysg pawb wrth i ni baratoi ar gyfer dechrau.

Cychwynnwyd yn y modd arferol drwy adrodd ein gweddi agoriadol, sef 'Cyntaf gair a ddywedaf …' geiriau o Lyfr Du Caerfyrddin, sy'n ein hangori i'r dref hon, yna canu'r intrada. Rhoddodd Beti-Wyn air o groeso cyn i ni fwrw iddi i ganu emyn 274 ('Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw') - ar ôl gorffen canu'r emyn, cynigiodd Beti-Wyn ein bod ni'n rhoi siot ar ei chanu'n ddigyfeiliant ac mewn rownd, gan rannu'r gynulleidfa'n ddwy, ac fe gafwyd fersiwn fywiog, *a cappella* sionc o'r emyn. Jayne fu'n cyhoeddi, a Greta a Cynan yn casglu wedyn. Canwyd emyn 147 ('Diolch, diolch Iesu') yna arweiniwyd rhan nesaf

y gwasanaeth gan rai o famau ifanc yr eglwys.

Darllenodd Llinos Jones ddetholiad allan o bennod olaf Llyfr y Diarhebion sy'n trafod mamau a gwragedd, yr hyn sy'n gwneud menyw dda 'mae hi'n fwy gwerthfawr na gemau' medd y testun. Mae menyw dda yn 'meddwl yn ofalus cyn prynu cae, a defnyddio'i harian i blannu gwinllan ynddo.' Dylem drysori pobl felly medd y Beibl. Yna gwyliwyd ffilm fer 'Salm i'r Fam' gan W. Rhys Nicholas.

Cafwyd taith gyflym o gwmpas y byd wedyn i weld sut mae gwledydd eraill yn dathlu Sul y Mamau gyda Hailey, mam Gwenllïan a Glyndwr, yn cychwyn y cyflwyniad. Cychwynnodd Hanna, mam Aneurin a Brynmor, yng Nghymru gan sôn am yr arfer o fynd i ymweld â 'mam eglwys', sef yr eglwys roedd pobl yn arfer mynd iddi pan oedden nhw'n blant, hynny yw, mynd 'nôl adre - dros amser daeth y Sul hwn, sef pedwerydd Sul y Grawys i'w adnabod fel Sul y Fam.




Yna ymlaen â ni i Israel gyda Non, mam Erin ac Elijah, yn rhannu'r hanes. Caiff Sul y Mamau ei ddathlu rhwng 30 Ionawr a 1 Mawrth. Ond adeg yr Ail Ryfel Byd, a'r erchylltra a brofwyd gan yr Iddewon, sefydlodd menyw o'r enw Henrietta Szold fudiad i achub plant Iddewig rhag y gyfundrefn Natsïaidd yn yr Almaen, doedd ganddi ddim plant ei hun, ac ar ôl y rhyfel penderfynwyd y byddai Sul y Mamau'n cael ei ddathlu ar ddydd pen-blwydd Henrietta yn gydnabyddiaeth o'i chymwynas.

Soniodd Heledd, mam Meredydd, am Tsieina a'r ffaith bod yr arfer o nodi Sul y Mamau yno'n rhywbeth lled ddiweddar. Mae'n cael ei ddefnyddio fel diwrnod i atgoffa pobl am y mamau tlawd sy'n byw yn yr ardaloedd gwledig. Caiff y diwrnod ei ddefnyddio yn Tsieina i atgoffa pobl i ddangos parch at bobl hŷn.

Aeth Carys, mam Tomos, Ifan a Cadi, â ni i'r Aifft. Yn 1956 mewn colofn bapur newydd, cynigiodd y newyddiadurwr Mustafa Amin y dylid cael diwrnod arbennig i famau. O dipyn i beth daeth y diwrnod yn fwy poblogaidd ac mae bellach yn cael ei arddel ar draws sawl gwlad Arabaidd, 21 Mawrth yw'r diwrnod dathlu.

Yn olaf, bant â ni i Awstralia gyda Mwynwen, mam Gwion, Gwenan ac


Elliw. Soniodd hi am y ffaith yn 1924 bod menyw o'r enw Janet Hayden wedi ymweld â chartref arbennig a sefydlwyd i famau unig yr oedd eu teuluoedd wedi anghofio amdanyn nhw. Am beth ofnadwy i ddigwydd! Fyddai'r un ohonom yn dymuno cael ein hanghofio. Gofynnodd Janet i ysgolion a busnesau lleol i roi rhoddion i'r menywod hynny i godi eu calonnau. O dipyn i beth, lledaenodd a datblygodd yr arfer ac erbyn y mae Sul y Fam, neu Ddiwrnod y Merched yn cael ei nodi ledled y wlad a hynny ar ail Sul mis Mai.

Arweiniodd Jayne ni mewn gweddi i ddiolch i Dduw am ein cartrefi, ein teuluoedd ond yn arbennig am ein mamau. Gofynnodd i ni gofio am holl blant y byd sydd ddim yn adnabod cariad mam a gofyn i Dduw eu cynnal nhw yn ei gariad.

Daeth Beti-Wyn i roi gair i'r plant gan ddangos llun o galon wedi'i rhannu'n bedair rhan, ag arni bedwar gair: Helpu, Maddau, Cefnogi a Gwarchod, y pethau hyn mae ein mamau, ein tadau a'n teuluoedd wedi eu gwneud ac yn eu gwneud i'r cynnal ni, am eu bod nhw'n ein caru ni. Yn yr un modd, y mae Iesu yn gwneud yr un peth.

Defnyddiodd bethau gweledol i danlinellu'r neges. Dangosodd sut i wthio dwy geiniog drwy dwll siâp ceiniog mewn papur i esbonio Helpu. Dangosodd dric hud a lledrith gan gael gwared ar y gair drwg oddi ar ddarn hances er mwyn esbonio Maddau. Dangosodd grys rygbi Cymru er mwyn dangos Cefnogi. Ac yn olaf, dangosodd sut mae magned yn atynnu hoelion ato i ddangos Gwarchod. Ac yn wir, roedd pawb, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn deall y neges.

Ar Sul y Fam, pan fyddai pobl yn draddodiadol yn mynd yn ôl i'w mam-eglwys, gofynnodd Beti-Wyn i ni ddiolch am ein heglwys hefyd, oherwydd y mae hithau'n ein caru ni a'n cynnal. Yna, canwyd yr emyn olaf sef emyn 125 ('Diolch am roddi i ni'r bore') cyn i ni gyd ganu'r fendith a dirwyn yr oedfa i ben.



Gyda'n bod ni yng nghanolfan Halliwell, roedd yna de a choffi ar gael i bawb, ynghyd â bisgedi. Arhosodd pawb i sgwrsio a mwynhau cwmni ei gilydd mewn awyrgylch braf, cyn ei throi hi am adre. Cafodd pob menyw genhinen Bedr i fynd adre gyda nhw hefyd, diolch i Cadi ac Ifan am ddosbarthu.

***DYNA*** ni wedi cael profiad gwahanol arall o addoli y tu fas i furiau'r

capel. Mi fyddwn yn gwneud eto yn ystod y flwyddyn. Mae’n bwysig i ni ddal ati. Ond am y tro, mae’n amser i ni bwyso a mesur sut beth fu’r profiad a siarad â’n gilydd amdano’n onest. Daw cyfle yn y man i bobl wyntyllu eu barn a rhannu sylwadau am y daith hon yr ydym ni oll yn ei chymryd, gan obeithio y cawn fudd a bendith o’r holl beth. Yr ydym fel eglwys yn edrych tua’r dyfodol ac mae’n rhaid i ni fod yn agored ac yn effro i bob cyfle a ddaw ac i fod yn barod i esblygu, newid a datblygu. Dydy hyn ddim i ddweud na fydd y broses hon yn un gymhleth, anodd ar brydiau, ac yn bendant mae’n un fydd yn llawn teimladau cymysg, mae hynny’n beth hollol naturiol. Ond, heb os, mae’n amser cynhyrfus i ni ac mae’n cynnig pob math o bosibiliadau i ni, yn unigol, ac fel eglwys. Ymlaen â ni felly, mewn ffydd!



## CORNEL

## CODI GWÊN!

**Cyfrinach pregeth dda yw bod gennych ddechreuad da a diweddglo da iddi – a bod y ddau beth mor agos â phosib i’w gilydd!**


## BORE COFFI LLYFRAU LLAFAR CYMRU

**Dydd Mercher 24 Ebrill 2024**
**10.30-12.00**
**Gwesty’r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin**

**CWIS Y GWYRTHIAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | gorff | 6 | ddangos |
| 2 | iacháu | 7 | offrwm |
| 3 | law | 8 | led |
| 4 | gwahanglwyf | 9 | wrando |
| 5 | beidio | 10 | weddïo |

**Papur Priordy'n cofio….**
**EDWARD JONES**
**Bardd y Brenin**
**1752-1824**
**Hynafiaethydd a Thelynor**



Ganed Edward Jones yn Llandderfel, Meirionnydd i deulu cefnog o ffermwyr.  Dywedir bod y tad yn gerddor galluog, yn fedrus ar ganu amryw o offerynnau, yn delynor, a gwneuthurwr telynau. Dysgodd ei fab i ganu'r delyn deires. Roedd Edward yn ymhyfrydu yn ei ieuenctid yng ngherddoriaeth draddodiadol ei fro enedigol.

Symudodd i Lundain tua 1775 i wasanaethu teulu pendefigaidd yr Herbertiaid. Bu ym Mharis ble daeth yn gyfarwydd â'r delyn bedal. Wedi hynny bu'n llwyddiannus fel athro ac unawdydd yng ngherddorfa J. C. Bach-Karl Abel yng nghyngherddau Sgwâr Hanover.

Cafodd maes o law ei benodi'n delynor i Dywysog Cymru, yn ddiweddarach y brenin Sior 1V.  Ar ôl i'r tywysog ddod yn frenin, dechreuwyd galw Edward Jones yn ' Fardd y Brenin'.

Roedd yn awdur nifer o lyfrau ar bynciau cerddorol.  Ei waith mawr oedd *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* – tair cyfrol1784-1820). Fe'i dilynwyd gan ail gyfrol *The Bardic Museum* (1802) a thrydedd gyfrol *Hen Ganiadau Cymru* (1820). Yn ei lyfrau mae llawer o wybodaeth am y beirdd Cymraeg cynnar a cherddoriaeth draddodiadol, ynghyd â chyfieithiadau Saesneg. Denodd ei lyfrau sylw ymhlith hynafiaethwyr a llenorion yn Lloegr

Casglodd a chyhoeddodd 209 o alawon Cymreig. Meddai gasgliad o lawysgrifau a llyfrau prin. Mae'r *Cydymaith i Gerddorion Cymru* (2018) yn dweud bod ganddo dri nod wrth gasglu a chyhoeddi, sef gwrthsefyll dylanwad Anghydffuriaeth gan iddo gredu ei fod yn andwyo egni

cerddorol y genedl, diogelu cerddoriaeth y gorffennol er mwyn llunio dyfodol cerddorol y genedl a hyrwyddo delwedd y Cymry fel pobl wâr a cherddorol.

Roedd yn ymddiddori mewn cerddoriaeth draddodiadol o bob rhan o'r byd. Casglodd lawer ohonynt a’u cyhoeddi yn *Popular Cheshire Melodies* (1798), *Lyric Airs* (1804) a *Musical Curiosities* (1811).

Heb waith manwl a gofalus Edward Jones yn casglu cerddoriaeth a barddoniaeth gan hen delynorion, beirdd a chantorion a glywai yn ystod ei blentyndod - ac yn eu cyhoeddi - mae'n annhebyg iawn y bydden ni heddiw yn canu llawer o'r hoff alawon fel *Llwyn Onn, Ar hyd y Nos, Cainc Dafydd Broffwyd*, gan y byddent wedi mynd yn angof ar ddiwedd y 18fed ganrif.

Bu Edward Jones yn rhan o'r cyfarfod cyntaf o Orsedd y Beirdd ar Fryn y Briallu, Llundain ym 1792 a sefydlwyd gan Iolo Morganwg. Mae’n debyg nad oedd fawr o Gymraeg rhwng Iolo ac Edward Jones!  Roedd Iolo’n ei weld yn rhy sefydliadol ac yn rhy deyrngar i’r brenin ond, ar y llaw arall, yn barod i’w esploetio gan y byddai’i bresenoldeb yn ychwanegu at statws a bri’r digwyddiad!




Edward Jones oedd y beirniad ar ganu'r delyn yn eisteddfod Caerfyrddin, 1819, ac eisteddfod Wrecsam, 1820. Mae’n debyg iddo gyfrannu’r gwobrau o’i boced ei hun.

Yn ddiweddarach yn ei fywyd wrth i’r delyn fynd yn llai poblogaidd effeithiwyd ar ei yrfa. Dioddefodd afiechyd a chafodd drafferthion ariannol hefyd. Bu farw wrth ei hunan yn ei lety, yn dlawd ac yn unig, yn Marylebone, Swydd Middlesex 18 Ebrill 1824, deucan mlynedd yn ôl i’r mis hwn a chladdwyd ef ym mynwent Marylebone.



Ysgrifennwyd ei gofiant gan Tecwyn Ellis (1918-2012), cyn Gyfarwyddwr Addysg Gwynedd a bu Elinor Bennett Wigley yn archwilio’i fywyd a’i waith yn 2022 yn un o gyfarfodydd y Cymmrodorion. Cafwyd hefyd ddarlith -ddatganiad

ganddi am Edward Jones fel rhan o Ŵyl Delynau Cymru 2024 yn y Galeri, Caernarfon ym mis Mawrth.






Meddai Meirion Hughes yn *Cydymaith i Gerddorion Cymru (*2018):

*Câi Edward Jones ei gydnabod yn un o brif delynorion ei gyfnod ac yn ffigwr pwysig ym maes cyhoeddi cerddoriaeth. Sefydlodd ganon o gerddoriaeth genedlaethol Cymru y bu casglwyr a chyhoeddwyr diweddarach yn cloddio ynddo: roedd yn rhagflaenydd dylanwadol i 'gyfansoddwyr cenedlaethol' y dyfodol, a threiddiodd ei ddylanwad ymhell y tu hwnt i Gymru.*

**MWYNHAU DATHLU GŴYL EIN NAWDDSANT!**



**Llun hyfryd o Ann Griffiths yng nghwmni Mwynwen ac Elliw Mai yn mwynhau mas draw!**

**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**EGLWYS GADEIRIOL RIO DE JANEIRO, BRASIL**



**Codwyd yr eglwys rhwng 1964 a 1979. Mae'n gonigal ei ffurf.**

**Mae hyd at 20,000 yn gallu sefyll ynddi.**

**Mae'n edrych yn debyg i un o byramidau'r Aifft o ran ei ffurf.**

## DATHLU'R PASG YNG NGHARTREF GOFAL

## PLAS Y DDERWEN











## DATHLU'R PASG YM MHLAS Y DDERWEN



***ROEDD*** bwrlwm mawr yng Nghartre Preswyl Plas-y-dderwen wrth i ni gyrraedd ar gyfer Gwasanaeth y Pasg - y lolfa'n llawn hyd yr ymylon a pheth canu cynulleidfaol ymlaen llaw yn rhoi naws arbennig i'r achlysur.

Yr wythnos fawr oedd thema ganolog Beti-Wyn.  Trafododd y ffordd y chwaraeodd gwahanol brenau ran ym mywyd Iesu yn ystod yr wythnos honno – o'r Balmwydden, y Ffigysbren a'r Olewydden hyd at y Groesbren. Ond nid y Groesbren oedd diwedd y stori ychwaith. Claddwyd Iesu mewn bedd mewn gardd ond cododd ac roedd yr amgylchedd ffres a blodeuog yn y fan honno'n arwydd o'r goleuni a'r bywyd newydd a ddaeth i bob un ohonom drwy'i atgyfodiad.




Canwyd sawl emyn – *O nefol addfwyn Oen*, *When I survey the wondrous cross* ac *O'r fath Geidwad rhyfeddol yw Iesu* gyda mynd mawr ar y cytgan *Cân Hosanna, cân Hosanna!*  Diolch i'r Parchedig Catrin Ann am gyhoeddi'r emynau ac i Mai Thomas a Heather Williams am eu gwaith wrth yr organ a'n Gweinidog am arwain y gwasanaeth a gwneud y trefniadau.

Rhaid diolch i'r cartref am baratoi mor dda ar gyfer y gwasanaeth a'r lluniaeth ysgafn wedi hynny, yn arbennig felly i Lisa Peart ac Ann Davies, Cydgysylltwyr Gweithgareddau'r Cartref. Hyfryd oedd y cebabau ffrwythau, y deisen Basg a'r baned a'r cyfle i aelodau'r Ofalaeth gymdeithasu â'r trigolion.



***ROEDD*** hon yn ffordd dda o baratoi ar gyfer yr Wythnos Sanctaidd – wythnos mor bwysig yn hanes yr Eglwys Gristnogol.





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

# PARÊD GŴYL DEWI








# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR

**Mawrth / Ebrill**

Sulwyn a Glenys Thomas    June Thomas a Heather Williams
Mwynwen Jones a Llinos Roberts

**Mai / Mehefin**

Gwynfor a Janet Davies
Adrian a Gloria Evans    Dennis a Rhian Jones

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ebrill | | Mai | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Catrin Heledd Jones | Huw Michael | Elis Jones | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | | **Mai** | **5** | |
| | **14** | Llinos Williams | | **12** | Rhian Jones |
| | **21** | | | **19** | |
| | **28** | Catrin Haf Williams | | **26** | Nia Lewis |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | **Bore** | Catrin Heledd a Jayne Jones |
| **Mai** | **5** | **Bore** | Betsan James a Rachel Davies |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | Emlyn Schiavone | **Mai** | **5** | Ffion Parsons |
| | **14** | Y Plant | | **12** | Y Plant |
| | **21** | Jayne Woods | | **19** | Tim Hayes |
| | **28** | Miriam Wyrwoll | | **26** | Angharad Wyn |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ebrill** | Elinor W Reynolds | **Mai** | Jayne Woods |

## Y DIWEDDAR GWILYM JONES

Gyda thristwch y clywsom am golli Gwilym. Bu farw yn dawel ar ei aelwyd, Golygfa Deg, Abergwili, ar 4 Mawrth 2024 yng nghwmni Myfanwy a Bryan a fu mor ofalus ohono dros gyfnod ei lesgedd.

Ganwyd Gwilym yng Nghwm Tafolog, Mallwyd, cyn symud i Fferm Penrallt, Bwlchyddar a mynychu ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Wedi priodi â Myfanwy a geni Bryan a Sharon, symudodd y teulu o Ganolbarth Cymru i Langynog, Sir Gâr, a gofalu am fferm Rhydychen.

Yn ystod y cyfnod hwn ymaelododd y teulu yng Nghana ac etholwyd Gwilym yn ddiacon. Ar ôl ymddeol a setlo yn Abergwili, daeth y teulu yn aelodau yn Y Priordy. Bu Gwilym a Myfanwy yn eithriadol o ffyddlon i'r oedfaon ac yn fawr eu cefnogaeth i agweddau eraill ar fywyd yr eglwys.

Cafodd Gwilym flas hefyd ar arwain oedfaon o Sul i Sul mewn amrywiol gapeli yng ngorllewin Cymu ac roedd wrth ei fodd yn traddodi'r Gair.

Wedi i iechyd Gwilym fethu, cafodd fendith o wrando ar yr oedfaon digidol gartref ar ei aelwyd bob Sul. Roedd yn hoff iawn o ganu ac yn aelod o Gôr Meibion Caerfyrddin a chyn hynny Gôr Meibion Gyn Ceiriog yn ystod ei gyfnod yn y gogledd.

Roedd yr angladd yn breifat yn ôl ei ddymuniad. Cynhaliwyd oedfa gartrefol yng Nghana ar 13 Mawrth 2024 ac yn dilyn yr oedfa fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Cana.

Estynnnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Myfanwy, Bryan a Sharon ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.

Cofion annwyl iawn am Gwilym.

*'A garwyd mewn bywyd.*
*A drysorir mewn cof.'*

**Beti-Wyn**

# RHWYDWAITH

***EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd.  Meddyliwn yn arbennig am Bronwen Wilkins. Cofion cynnes atoch i gyd.**

***LLONGYFARCHIADAU*** i Tudur Dylan Jones am gael ei ddewis yn un o feirniaid **Gwobr Llyfr y Flwyddyn** eleni. Mae Llyfr y Flwyddyn yn wobr flynyddol sy'n dathlu llenorion talentog Cymreig sy'n rhagori mewn ffurfiau llenyddol amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn rhan annatod o weithgaredd Llenyddiaeth Cymru. Bydd y Seremoni Wobrwyo yn cael ei chynnal yn y Galeri yng Nghaernarfon ar 4 Gorffennaf 2024.

Yn un o'i golofnau diweddar yn **Y Cymro** mae Lyn Ebenezer yn trafod perfformiad cyntaf y ddrama Under Milk Wood yn Gymraeg, sef Dan y Wenallt a gyfieithwyd yn wyrthiol i'r Gymraeg gan T James Jones. Digwyddodd y perfformiad 57 mlynedd yn ôl ar dir plasty Glan y Môr yn Nhalacharn. Meddai: *Wrth edrych yn ôl mae'n anodd credu gymaint o ddarpar sêr oedd yn rhan o'r cast…. A phwy oedd y postmon busneslyd, Jacyraca? Neb llai na Sulwyn Thomas…*

Llongyfarchiadau i Adrian Evans ar ei ethol yn Gadeirydd **Clwb Probus Myrddin**. Pob hwyl iddo yn y swydd.

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi lansio cyfres newydd o bregethau sy'n addas i'w defnyddio os nad oes gan gapel bregethwr ar y Sul. Mae'r bregeth tua chwarter awr mewn hyd. Mae cyflwyniad PwyntPwer ar gael i bob pregeth hefyd. Beti-Wyn gyflwynodd y bregeth gyntaf yn y gyfres newydd hon a hynny ar Sul y Mamau a hefyd ar Sul y Pasg.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Emlyn Schiavone ar gael ei ethol yn Faer Tref Caerfyrddin 2024/25 a'r Cynghorydd Heledd ap Gwynfor yn Ddirprwy Faer. Ein dymuniadau gorau iddynt. Cynhelir Gwasanaeth Dinesig yn y Priordy ar Ddydd Sul 9 Mehefin 2024 dan ofal ein gweinidog, Caplan y Maer. Bydd ein Gweinidog hefyd yn un o dîm o gaplaniaid i Helen Jones Uchel Siryf Dyfed 2024/5.



Cafodd Huw Michael ei holi gan Jennifer Jones ar **Dros Ginio** ar Radio Cymru ynglŷn â chyhoeddiad y Prif Weinidog Rishi Sunak fod angen nifer o orsafoedd tyrbinau nwy newydd i gynhyrchu trydan i osgoi y posibilrwydd y byddwn heb drydan o gwbl (blacowts) yn y blynyddoedd i ddod. Er y bydd y gallu i gynhyrchu trydan gyda thyrbinau gwynt ar y môr yn cynyddu'n sylweddol, bydd diwrnodau oer iawn o hyd pan na fydd llawer o wynt. Roedd y cyhoeddiad yn ddadleuol ymhlith y lobi amgylcheddol, er bod yr Wrthblaid yn gefnogol.

Llongyfarchiadau mawr i Aled Edwards ar lwyddiant arbennig ym maes Bowlio Mat Byr. Daeth Tîm Cymru y mae Aled yn aelod ohono, yn bencampwyr byd yn ddiweddar ym Melfast yn y gystadleuaeth ar gyfer timau o bedwar. Roedd 14 o wledydd yn cystadlu. Pencampwr Byd yn y Priordy - ardderchog!

***I GLOI***, ein dymuniadau da i Glenys Thomas ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar a hefyd i Ifor Evans a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 24 Ebrill oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

Estynnnwn ein cydymdeimlad â Huw a Rhyswen Michael ar golli perthynas i Huw ar ochr y fam, sef Beryl Lewis, gweddw'r diweddar Barchedig John Lewis, Coleg y Drindod gynt a gweinidog gyda'r Bedyddwyr cyn hynny yn Abergwaun. Hefyd, collodd Rhyswen briod ei nith, yn ddiweddar, sef Colin Rice, Llanfarian. Cofiwn am Lowri, ei briod, Tomi, y crwt bach ifanc, a'r teulu cyfan yn eu galar.

Cofiwn am Ifor Evans ac Ann Griffiths sydd wedi colli cyfnither iddynt, Marylyn Joyce Thomas, Llangennech. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Estynnnwn ein cydymdeimlad â Hefina Lloyd ar golli'i mam, y ddiweddar Eileen James, Llanymddyfri gynt, a chofiwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth.

Cydymdeimlwn ag Olive Lloyd ar golli gŵr i'w chyfnither, sef William Pugh Hinds, Tyllwyd Abergwili gynt. Cofiwn am ei briod Margaret a'r teulu cyfan yn eu hiraeth. Mae'r mab, Wyn, yn gyfarwydd i ni yn y Priordy fel un sy'n goruchwylio'n cyfrifon.

| ☎ RHIFAU FFÔN ☎ | | |
|---|---|---|
| **Y Samariaid yng Nghymru** | SAMARITANS SAMARIAID | **Ffoniwch** **☎ 116 123** |
| | | |
| **Tir Dewi** | Tir Dewi | **Ffoniwch** **☎ 0800 121 4722** |

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **14** | ***Bore***<br>***P'nawn*** | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog<br>Paned a Chacen am 4.30 – Manylion y tu mewn | |
| | **21** | ***Bore*** | Y Parchedig Dyfrig Rees | |
| | **28** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **5** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **12** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| ***Sulgwyn*** | **19** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **26** | ***Bore*** | Y Parchedig Owain Llyr Evans | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu EW- Erw Hir**

| **Ebrill** | | | | **Mai** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7** | **14** | **21** | **28** | **5** | **12** | **19** | **26** |
| ✓ | **CP** | ✓ | ✓ | ✓ | **CP** | ✓ | - |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**




***Dydd Sul, 23 Mehefin 2024***